# Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwerthuso Ein Perfformiad: 2012-2013



www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynnwys


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Yr Hyn y Mae'r Cyngor yn ei Wneud | 2 |
| 3 | Crynodeb o Gynnydd ar y Cynllun Corfforaethol | 4 |
| 3.1 | Beth sydd angen I ni ei wella/ datblygu | 7 |
| 4 | Sut ydym ni'n Cymharu | 8 |
| 5 | Crynodeb Ariannol | 10 |
| 6 | Dweud Eich Dweud | 12 |
| 7 | Blen I gael mwy o wybodaeth am eich Cyngor | 13 |


Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill

Braille A

Cysylltwch â'r: Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
E-bost: :cidt@conwy.gov.uk
Ffôn: ☎ 01492 574000

## 1 Cyflwyniad

Croeso i Grynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o berfformiad y cyngor yn ystod blwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013. Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi'r cyfrif cyhoeddus am y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio fel y manylir yn Adroddiad Blynyddol 2012 - 2013 - Asesu Ein Perfformiad. Mae Copi o'r adroddiad llawn a'r holl fesurau perfformiad ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk/atebolrwydd.

Gobeithiwn y byddwch o'r farn bod yr adroddiad hwn yn un llawn gwybodaeth ac yn werthusiad cytbwys o'n perfformiad. Nod yr adroddiad yw cynnig sicrwydd fod Conwy'n ymrwymedig i weithio gyda phob un o'r partneriaid i ddarparu gwasanaethau da ac i leihau effaith yr heriau ariannol trwy weithio mewn dull arloesol i gwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr â Chonwy.

## 2 Beth mae'r Cyngor yn ei wneud

Y Cyngor sy'n gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus sydd â'r bwriad o gefnogi bywyd dyddiol trigolion ac ymwelwyr y fwrdeistref sirol. Dyma giplun o'r amrywiaeth o wasanaethau a lefel y galw sy'n rhaid i ni ei fodloni.

***Ar ddiwrnod arferol mae'r Cyngor:***

- Yn addysgu dros 16,000 o blant mewn 67 ysgol gynradd ac uwchradd.
- Derbyn dros 2,000 o ymweliadau i'n 10 o ganolfannau hamdden a phyllau nofio.
- 6,700 o ymweliadau i dudalennau'r wefan.
- Gwagio tua 6,000 o finiau domestig.

***Mewn wythnos mae'r Cyngor:***

a) Yn derbyn tua 9,100 o ymwelwyr i'r llyfrgelloedd.
b) Yn derbyn tua 66 o geisiadau ar gyfer swyddi.

***Mewn mis mae'r Cyngor:***

- Yn derbyn tua 67 o geisiadau cynllunio.
- Yn cynorthwyo tua 80 o aelwydydd ar fudd-daliadau.
- Yn darparu cefnogaeth i 2,800 o bobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain gydag adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

***Mewn blwyddyn mae'r Cyngor:***

- Yn ailgylchu a chompostio 30,000 tunnell o ddeunydd o gasgliadau ochr ffordd, safleoedd a chanolfannau ailgylchu. (banciau poteli, dillad ayyb).
- 
- Glanhau 2,000 o strydoedd.
- Cynnal 17,700 o oleuadau stryd.
- Casglu bron i 430,000 o daliadau treth y cyngor a bron i 17,700 o daliadau ar gyfer cyfraddau annomestig.
- Derbyn dros 570,000 o ymwelwyr i'r wefan.
- Edrych ar ôl 250 o blant drwy ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Yn denu tua 32,300 o bobl i berfformiadau byw (gan gwmnïau lleol yn bennaf) a dangosiadau sinema yn Theatr Colwyn.

- Yn gartref i gynadleddau a digwyddiadau o bob rhan o Brydain ac yn llwyfannu tua 300 o berfformiadau yn Venue Cymru gan ddenu dros 300,000 o ymwelwyr. Mae digwyddiadau yn Venue Cymru yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol gyda 53,000 o nosweithiau mewn gwestai'n cael eu creu.

**Yr ardal rydym yn ei chynnal**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli 795 hectar o barciau, coetiroedd a gofod agored. Mae gan Gonwy 75km o arfordir ac mae ganddo'r hyd hiraf o arfordir wedi'i amddiffyn yn artiffisial yng Nghymru, ychydig dros 23km sy'n cynrychioli tua 20% o'r arfordir sydd wedi'i amddiffyn yn artiffisial yng Nghymru.

Mae gan Gonwy 124km o gefnffyrdd, 119km o brif ffyrdd, 716km o ffyrdd llai a 837km o ffyrdd di-ddosbarth sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.

## 3 Crynodeb o Gynnydd y Cynllun Corfforaethol

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed i gyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13. Mae'r cynnydd wedi'i restru yn ôl y Canlyniadau i Ddinasyddion sy'n cael eu cefnogi gan yr amcanion gwella, a fanylir arnynt yn y Cynllun Cymunedol Integredig**, Un Conwy 2012 – 2025**.

| ***1) Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau Rydym wedi:*** | ***2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; Rydym wedi:*** | ***3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas. Rydym wedi:*** |
|---|---|---|
| a) cefnogi cyfanswm o 23 o fentrau cymdeithasol<br>b) cynorthwyo 1132 drwy ein cynllun 'Gwaith Amdani'<br>c) darparu 256 o leoliadau profiad gwaith yn 2012/13. Mae hyn ar gael i bob oedran a chefndiroedd.<br>d) cynyddu nifer y prentisiaethau modern o 3 i 21, a sefydlu Bwrdd Sgiliau Strategol i gydlynu sgiliau ledled y sir.<br>e) gwahodd busnesau lleol i gwblhau arolwg sgiliau ac amlygodd hynny fwlch mewn cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau'n lleol. Bydd gwaith yn dechrau'n awr i gyfarch y bwlch hwn.<br>f) cefnogi ysgolion i ddefnyddio technoleg newydd<br>g) sefydlu system i fonitro cyrhaeddiad plant er mwyn lleihau nifer y plant sy'n cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 ac yn methu cyrraedd safon gwaith y maent yn gallu ei gyflawni.<br>h) dechrau adeiladu adeilad newydd Ysgol Y Gogarth yn Llandudno.<br>i) adolygu pynciau Gwyddoniaeth a Thechnoleg, sy'n cael eu cynnig mewn ysgolion er mwyn datblygu hyfforddiant a chyflogaeth o fewn y rhanbarth i'r dyfodol. | a) cyflogi cwmni ar gontract tymor penodol i wella ein rôl gorfodaeth a gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth am sbwriel.<br>b) rhagori ar y targedau a osodwyd ar gyfer cael gwared â nodwyddau, graffiti a thipio anghyfreithlon.<br>c) cynnal 12 diwrnod gweithredu amgylcheddol ar draws y Sir, ac mae mwy na 65 tunnell o ddeunydd wedi ei gasglu, gyda 53% ohono yn cael ei ailgylchu.<br>d) Partneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n gweithredu i leihau troseddau cyfleu bod gostyngiad mewn troseddau i'r cyhoedd ar bob cyfle. Mae'r gostyngiad mewn tor-cyfraith o'r naill flwyddyn i'r llall yn dangos fod cydweithio'n gwireddu'r canlyniad a ddymunir o wneud Conwy yn lle diogel i fyw.<br>e) adolygu ein prosesau amddiffyn oedolion a phlant er mwyn gwella'r modd y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu pobl diamddiffyn.<br>f) comisiynu nifer o wasanaethau cyffuriau ac alcohol yn ogystal â chynghorydd Annibynnol ar Drais yn y Cartref. Un o'n prif brosiectau yw cynllun cartrefi diogelach sy'n targedu cartrefi dioddefwyr Cam-drin Domestig.<br>dechrau datblygu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Bydd y tîm yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn atal plant rhag mynd orfod mynd i ofal. | a) dechrau Prosiect Atebion Tai Conwy mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol. Bydd y prosiect yn mynd ati i ddatblygu Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol er mwyn bod o gymorth i gael mwy o le o fewn y Sector Rhentu Preifat.<br>b) Prosiect Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD) sy'n datblygu Fframwaith Dyrannu Cyffredin.<br>c) cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru i'w archwilio Disgwyliwn benderfyniad yr Arolygydd<br>d) Strategaeth Tai Lleol newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a fydd hefyd yn llywio dull gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu tai fforddiadwy.<br>e) sefydlu Cynllun Morgais Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i alluogi trigolion Conwy i dderbyn morgeisi gyda 5% o flaendal. Bu blwyddyn gyntaf y cynllun yn llwyddiant mawr gyda 29 morgais yn cael eu cwblhau a 3 yn cael eu prosesu.<br>f) sefydlu Mannau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ym Mhensarn a Bae Colwyn er mwyn gwella cyflwr y tai.<br>g) Cafodd 39 eiddo eu hadfer at ddefnydd preswylwyr yn sgil gweithredu uniongyrchol yn ystod 2012/2013.<br>h) cynnal 11 o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth Llifogydd.<br>i) derbyn cyllid i ddechrau cynllun ynni effeithlon ar gyfer Bae Colwyn. |

| ***4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol***<br>***Rydym wedi:*** | ***5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir a chanddi economi ffyniannus***<br>***Rydym wedi:*** | ***6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy***<br>***Rydym wedi:*** |
|---|---|---|
| a) sefydlu rhaglen trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol   Bydd y rhaglen, a gefnogir drwy 6 prosiect, yn darparu arfarniad opsiynau o newidiadau busnes a systemau y gellir eu gwneud i sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddewis ac yn gallu aros yn annibynnol am gyn hired ag y bo modd.<br>b) datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaeth preswyl wedi'i gyfuno i blant i gael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>c) gwnaed ymdrech sylweddol i nodi a chynnig mwy o asesiadau gofalwyr.  Mae'r gwasanaeth yn creu fframwaith canlyniadau gofalwyr sy'n mesur mynediad at gefnogaeth amserol a gwybodaeth ac yn rhoi gwybodaeth i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i ofalwyr.<br>d) pob ysgol yng Nghonwy ar Fenter Ysgolion Iach. Mae cynllun gweithredu Conwy Egniol am Oes yn mynd rhagddo o dan bob un o'r meysydd blaenoriaeth.  Er gwaethaf cynnydd o 6% yn nifer y disgyblion sy'n gallu nofio, roedd hyn fymryn yn is na'r targed a osodwyd.<br>e) derbyn cyllid i gynnal asesiad o anghenion cludiant yng Nghonwy wledig.<br>f) cyflawni'r targed o % y bobl hŷn sydd ddigon iach ar ôl 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt bellach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys  Byddwn yn gweithredu i ddarparu hyn i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth. | a) buom yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau mawr ac arwyddocaol (Rali Cymru Prydain Fawr, Fflam Olympaidd, cyngerdd Access All Eirias)  sydd wedi dod â budd economaidd gwerthfawr i'r Sir.<br>b) adolygu'r budd i'r gymuned a chymalau cymdeithasol gyda'r bwriad o'u cynnwys, lle bo hynny'n gyfreithiol bosibl, yn rhan o'r holl brosesau caffael ledled y Cyngor.  Mae hyn yn cynnwys prentisiaethau a chyflogi pobl leol.<br>c) defnyddio newyddlenni a hysbys cyfeiriadur busnes i gyfathrebu gyda busnesau lleol pan fo cyrsiau / digwyddiadau yn digwydd.  Mae adolygiad o drefniadau Conwy wrth gefnogi busnesau ar y gweill ac mae Rhwydwaith Busnesau Gwledig wedi'i sefydlu,<br>d) canolbwyntio ar brif sectorau'r rhanbarth; Ynni/Yr Amgylchedd a Gweithgynhyrchu Uwch ac ar hyrwyddo Cyrchfan Gogledd Cymru ac gyfer twristiaeth ac ar Fewnfuddsoddi.<br>e) gweithio drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sefydlu rhaglenni Strategaeth Economaidd ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf sydd wedi bod yn gweithredu nifer o fentrau i helpu teuluoedd allan o dlodi. | a) diwallu ein targedau ar gyfer ailgylchu gwastraff<br>b) derbyn gwobrau traethau ar gyfer 11 allan o 13 o'n traethau.   derbyniwyd 8 baner werdd ar gyfer ein parciau a 3 baner werdd ar gyfer ein gwarchodfeydd natur.<br>c) 29 o safleoedd oedd yn ddolur llygaid wedi'u tynnu o'r rhestr.<br>d) cymeradwyo cynllun rheoli carbon a chwblhau rhaglen o newidiadau i'n systemau goleuo.  Ni gyflawnwyd y targed carbon, ond byddwn yn gweithio i wella hyn.<br>e) cyflawni lefel 3 allan o 5 ar gyfer safon rheoli amgylcheddol y Ddraig Werdd.<br>f) sefydlu Rhaglen Trawsnewid Busnes i gefnogi gweithredu technoleg newydd i leihau papur.<br>g) dechrau profi unedau ailgylchu newydd – y trolibocs. |

| ***7) Mae pobl yng Nghonwy’n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a’r Gymraeg yn ffynnu***<br>***Rydym wedi:*** | ***8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais***<br>***Rydym wedi:*** | ***Cyffredinol:***<br>***Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Effeithlon ac wedi’u rheoli’n dda***<br>***Rydym wedi:*** |
|---|---|---|
| a) cyflwyno Strategaeth Iaith Gymraeg Conwy ar gyfer 2013/14.<br>b) cynyddu nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog o 9 i 10 ar gyfer 103 o ddysgwyr.<br>c) gweld cynnydd yng nghyrhaeddiad Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.<br>d) Cynhaliwyd penwythnos dwyieithog, hwyliog, am ddim i deuluoedd yn Venue Cymru.<br>e) Cefnogi 130 o staff i fynychu cyrsiau Cymraeg.<br>f) parhau i gefnogi ysgolion sy'n darparu 25% o’r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>g) Mae’r rhan fwyaf o Gynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy bellach wedi ei gwblhau.<br>h) Gweithio mewn partneriaeth i sefydlu prosiect Tywysogion Gwynedd a phrosiect ‘Ein Treftadaeth’.<br>i) Sefydlu prosiect Twristiaeth Awyr Agored Interreg sy’n cynnwys datblygu rhaglen prentisiaeth. Mae'r prosiect wedi targedu unigolion dan anfantais a'r rhai sydd â phroblemau iechyd ac yn creu cysylltiadau rhwng y cynllun atgyfeirio meddygon teulu a gweithgareddau awyr agored.<br>j) Cytuno ar gynllun gweithredu i wella nifer y digwyddiadau gwasanaeth ieuenctid i hyrwyddo Diwylliant Cymru. | a) Adolygu Strategaeth Ymgysylltu y Cyngor yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus.<br>b) cofrestru 24 allan o 33 o’r cynghorau tref a chymuned i Siarter y Cyngor.<br>c) dechrau prosiect i arbrofi gweddarlledu rhai o gyfarfodydd y Cyngor a Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer yr Aelodau.<br>d) Mae 15 Aelod Etholedig wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol yn sôn am y gwaith y maent wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.<br>e) sefydlu Rhaglen Cwsmer. Mae’r prosiectau’n cynnwys moderneiddio llyfrgelloedd, cefnogi pobl i addasu i’r newidiadau i’r Gyfundrefn Les, adolygu a diweddaru’r Siarter Cwsmeriaid, gwella sut yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â chymunedau, gwella mynediad cwsmeriaid at wasanaethau ar-lein a gwella sut y caiff cwynion eu dadansoddi.<br>f) cwblhau 111 prosiect yn y cynlluniau ardal.<br>g) cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae’r gweithredoedd ar y gweill.<br>h) cwblhau arolwg bodlonrwydd ar gyfer y wefan.<br>i) dadansoddi cwynion a dderbyniwyd er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu ohonynt. | a) rhaglenni moderneiddio gwasanaeth wedi eu sefydlu i adolygu’r Gwasanaethau Cymdeithasol ac i adolygu integreiddio gwasanaethau’r amgylchedd, priffyrdd ac eiddo yn un Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (AFfCh) integredig.<br>b) uno’r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) a ddechreuodd ar 1 Ebrill. O ganlyniad, mae nifer o ailstrwythuro mewnol wedi’u cynnal.<br>c) cynyddu’r nifer sy’n cofrestru ar gyfer e-filiau treth y cyngor.<br>d) sefydlu grŵp swyddfa i benderfynu gofynion gofod swyddfa yr Awdurdod yn y dyfodol<br>e) paratoi ceisiadau i wneud y gorau o gyllid Ewropeaidd er mwyn gwella gwasanaethau a denu mwy o fuddsoddiad busnes i’r sir.<br>f) cwblhau gwerthusiad buddiannau prosiectau ar y cyd.<br>g) gweithio i wella nifer y staff sy’n derbyn adolygiad datblygiad personol blynyddol. Nid ydym wedi bodloni ein targed a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn. |

### 3.1 Be sydd angen i ni ei wella / datblygu

Rydym yn falch iawn o'r cyflawniadau hyn, ond mae hunanasesu hefyd yn golygu ystyried yr agweddau lle mae angen i ni wella neu barhau i ddatblygu. O'r herwydd, byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:

- Mae'r pwysau ariannol yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r awdurdod. Byddwn yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus a gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r arbedion ariannol angenrheidiol.
- Byddwn hefyd yn adolygu'r pwysau ariannol yn y meysydd hynny lle bo cynnydd yn y galw – h.y. yr henoed a chleientiaid ag anableddau dysgu y mae arnynt angen cefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol. Mae newidiadau yn y gyfraith hefyd efallai yn rhoi pwysau ariannol ar wasanaethau cymdeithasol sydd rŵan â chyfrifoldeb am rai 16/17 oed sy'n cyflwyno eu hunain fel digartref, a bydd cyfrifoldeb am blant ar remand yn symud oddi wrth y Swyddfa Gartref i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall hyn achosi costau ychwanegol.
- Mae angen i ni wella ar y tanberfformiad gogyfer â rhai o'n mesuryddion. Mae angen i ni weithio i gynyddu canran anheddau gweigion y sector preifat sy'n cael eu meddiannu, a'r amser a gymer i ddod o hyd i lety addas ar gyfer pobl sydd wedi dod yn ddigartref. Mae angen i ni wella canran ceisiadau rheoli adeiladu 'cynllun llawn' sy'n cael eu gwirio o fewn 15 diwrnod gwaith a lleihau allyriadau carbon deuocsid o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. O ran cefnogi pobl ifanc, mae angen i ni weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i wella: canran y disgyblion ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n cael gradd A* i C ym Mhynciau Craidd TGAU; canran y bobl ifanc fu ar un adeg yn derbyn gofal y mae'r awdurdod yn parhau i fod mewn cyswllt â nhw yn 19 oed; a chanran yr ymweliadau statudol a wnaed â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. Mae hefyd angen i ni wneud rhagor i hyrwyddo'r diwylliant Cymreig/Cymraeg yng ngwaith y gwasanaeth ieuenctid. Mae'r gwasanaethau wedi rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau gwelliant yn y meysydd hyn a bydd y cynnydd a wneir yn cael ei fonitro.
- Mae gwaith ar y gweill i gydymffurfio â gofynion y Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i reoli risg llifogydd yn y sir.
- Rydym yn cadw llygad ar ddatblygiad y Papur Gwyn yn y maes Tai i sicrhau ein bod yn rhagweld y newidiadau arfaethedig a fydd yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau.
- Mae goblygiadau diwygio'r gyfundrefn les hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac rydym wedi cysylltu â'r teuluoedd yr effeithir arnynt i roi cefnogaeth gyda'r newidiadau ariannol.
- Rydym yn parhau i asesu'r Gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gyda'r bwriad o wneud gwelliannau iddo a sicrhau arbedion ariannol.
- Mae Grwpiau Adolygu Cyllideb wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae arbedion effeithlonrwydd 2012/13 wedi eu cyflawni ond mae rhagor o heriau o'n blaenau i gwrdd â thargedau arbedion effeithlonrwydd pellach.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu cynllun prosiect er mwyn darparu gofod swyddfa effeithion a chost effeithlon.
- Rydym wedi bod wrthi'n gweithio gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn perthynas â'r prif brosiectau yng Nghonwy a Gogledd Cymru sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cylch newydd o ariannu Ewropeaidd yn 2014.
- Mae prosiect corfforaethol wedi ei sefydlu i gyfarch argymhellion Archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i sefydlu dull gweithredu ledled y Cyngor er mwyn rheoli gwybodaeth.
- Byddwn yn parhau i foderneiddio ac i sicrhau effeithlonrwydd ariannol y Cyngor trwy gyfrwng amryw o raglenni trawsnewid sydd yn eu lle gogyfer â'r gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth yr amgylchedd, ffyrdd a chyfleusterau, y gwasanaeth


llyfrgelloedd, y gwasanaeth cymorth busnes a'r gwasanaeth cwsmeriaid. Mae cynigion ar gyfer gofod swyddfa effeithiol a chost effeithlon hefyd yn cael eu datblygu.

## 4 Sut Rydym yn Cymharu

Mae'n ofynnol i'r Cyngor 'nodi angen' a 'gwella gwasanaethau'n barhaus' o dan 'Raglen Cymru ar gyfer Gwella' Llywodraeth Cymru. Er mwyn asesu i ba raddau yr ydym yn llwyddo, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu nifer o fesurau perfformiad statudol sy'n ymdrin â meysydd polisi allweddol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Wedyn, caiff lefel y perfformiad ei chymharu â thargedau a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'n perfformiad yn ôl mesuryddion cenedlaethol pan ellir gwneud cymhariaeth, a hefyd, yn darparu crynodeb o sut yr ydym wedi perfformio yn ôl y targedau a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol.


### 4.1 Cyflawni ein Targedau Cenedlaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2012/13 gogyfer â'r mesuryddion perfformiad statudol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod eu hunain ar ddechrau'r flwyddyn.


Mae dealltwriaeth y Cyngor o'r mesuryddion perfformiad hyn a'n dulliau ni o gasglu'r data wedi cael eu gwirio gan ein harchwilwyr allanol, KPMG. Nid oedd gan yr archwilwyr allanol unrhyw amheuon ynglŷn â'n dehongliad ni o'r mesuryddion. Mae pob un o'r 44 Dangosydd Strategol Cenedlaethol a phob un o'r Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu cymharu ledled Cymru.

### 4.2 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?




Mae llawer iawn o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Rydym yn ymwybodol bod gennym ddangosyddion perfformiad yn chwarter isaf perfformiad Cymru ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

### 4.3 Cyflawni Targedau ein Cynllun Corfforaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2012/13 gogyfer â mesuryddion y cynllun corfforaethol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn.


i weld adroddiad llawn ein Mesuryddion Perfformiad gweler ein gwefan www.conwy.gov.uk/adroddiadblynyddol


## 5 Crynodeb Ariannol

Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian ac mae'n codi'r bedwaredd ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cymru'n darparu setliad grant refeniw i Awdurdodau Lleol sy'n ariannu cyfran fawr o'r gyllideb refeniw. Roedd setliad 2012/13 yn cynnig cryn her, gan mai toriad mewn cyllid ydoedd mewn termau real o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau amddiffyn wedi'u cynnwys ar gyfer cyllidebau Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol. Canlyniad hyn oedd bod ein rhagolwg gwario'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £5.954 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Cyflawnwyd yr arbedion trwy gyfrwng sawl blaengaredd gan gynnwys adolygu'r polisi teithio ar gyfer staff yn unol â Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Undebau Llafur, cychwyn gwneud taliadau uniongyrchol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ynghyd ag agor cyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol a nifer o ymarferiadau ailfodelu gwasanaethau a arweiniodd at arbedion o ran costau staffio. Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2012/13 ac o ble y daeth yr arian (incwm).

## Sut caiff yr arian ei wario

| 2011/12 Gwir Gost Cost Net £'000 | Gwasanaeth | 2012/13 Amcangyfrif Cost Net £'000 | 2012/13 Gwir Gost Cost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 88,466 | Addysg | 88,668 | 88,627 |
| 38,035 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 38,691 | 38,621 |
| 24,679 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 24,339 | 24,184 |
| 7,283 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 7,271 | 7,449 |
| 2,374 | Tai | 2,548 | 2,548 |
| 25,852 | Gwasanaethau Eraill | 26,239 | 26,412 |
| **186,689** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **187,756** | **187,841** |



## O ble daw'r arian

| 2011/12 £'000 | Ffynhonnell | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 117,945 | Grant Cynnal Refeniw – gan LIC | 113,351 |
| 26,671 | Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan LIC | 30,640 |
| 42,073 | Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor | 43,850 |
| **186,689** | **CYFANSWM CYLLID** | **187,841** |
| **(3,005)** | **BALANSAU (A Ddygwyd Ymlaen)** | **(3,005)** |
| **(3,005)** | **BALANSAU (A Gariwyd Ymlaen)** | **(2,979)** |

## Crynodeb o Wariant Cyfalaf

| 2011/12 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2012/13 Gwariant £'000 |
|---|---|---|
| 3,085 | Addysg | 6,552 |
| 510 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 608 |
| 17,629 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 12,908 |
| 3,115 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 4,718 |
| 1,417 | Tai'r Sector Preifat | 1,515 |
| 2,160 | Gwasanaethau Eraill | 2,104 |
| 287 | Contractau Tai a Gedwir | 23 |
| **28,203** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **28,428** |

## 6 Dweud Eich Dweud

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Cysylltwch â ni os:

- Oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys yr adroddiad;
- Os hoffech argymell amcanion gwella newydd y dylai'r Cyngor eu hystyried;
- Neu os hoffech gopi o Gynllun Corfforaethol 2012 – 2017, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu Adroddiad Blynyddol 2011-12.

| | |
|---|---|
| Ysgrifennwch | **Y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol**<br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Bodlondeb**<br>**Conwy**<br>**LL32 8DU** |
| Ffôn | 01492 574000 |
| E-bost | cidt@conwy.gov.uk |
| Gwasanaeth Relái Testun BT | Gall cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw neu nam ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y mae arnynt ei angen. |

Caiff y Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol hwn, yr Adroddiad Blynyddol, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. www.conwy.gov.uk/atebolrwydd a www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau yn defnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Crynodeb a'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar grynoddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu cael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

**Llyfrgelloedd y Sir**
**Llyfrgell Deithiol**

**Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai**
**Bodlondeb, Conwy**
**Neuadd y Dref, Llandudno**
**Yr Heath, Llanfairfechan**

**Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn**
**Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd Bron y Nant, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre**
**Glasdir, Llanrwst**

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

## 7 Ymhle Gellir Cael Rhagor o Wybodaeth am eich Cyngor

| | |
|---|---|
| Ar ein gwefan | www.conwy.gov.uk |
| Rhwydweithiau Cymdeithasol | Gallwch ein dilyn ar Twitter a Facebook |
| '**Un Conwy' 2012 – 2025** Cynllun integredig Bwrdeistref Sirol Conwy | www.conwy.gov.uk/oneconwy |
| **Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2012 - 2017** ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol | www.conwy.gov.uk/corporateplan |
| Mae'r **Uned Data Llywodraeth Leol** yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. | www.lgdu-wales.gov.uk |
| Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan: | www.conwy.gov.uk/accountability |
| Mae **Swyddfa Archwilio Cymru** yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: | www.wao.gov.uk |
| Mae **Estyn** yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | www.estyn.co.uk |
| Mae **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhyw gymaint o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | www.cssiw.org.uk |